# Siarad Gyda'n Gilydd

I CAN
helps children communicate
REGISTERED CHARITY 210031

## Helpu babanod a phlant bach ddysgu sgiliau ar gyfer siarad



# Dysgu siarad

**Mae siarad, deall pobl a gwybod beth i'w ddweud yn sgiliau pwysig iawn. Maen nhw'n helpu plant i wneud ffrindiau, dysgu a mwynhau bywyd i'r eithaf.**

Mae mynd o fod yn fabi sy'n clebran i fod yn blentyn bach siaradus bron yn wyrth, ond mae eich plentyn angen eich help CHI i wneud i hyn ddigwydd. Bydd y wybodaeth a'r cyngor yn y daflen hon yn helpu. Mae siarad yn eich mamiaith neu iaith y cartref yn bwysig i roi'r dechrau gorau i'ch plentyn.

## Babanod

Mae babanod yn cyfathrebu gyda ni o'u genedigaeth. Wrth grio maen nhw'n gadael i ni wybod os ydyn nhw angen bwyd neu'n anghyffyrddus. Maen nhw'n gwenu ac yn edrych arnon ni pan fyddwn ni'n siarad. Wrth i ni siarad gyda nhw maen nhw'n dechrau deall y geiriau syml fyddwn ni'n eu defnyddio.

Mae babanod yn hoffi chwarae gyda synau drwy "glebran". Byddan nhw'n dweud eu geiriau cyntaf rhwng 12 a18 mis oed. Efallai na fyddan nhw'n swnio fel geiriau oedolyn, ond wrth i chi wrando arnyn nhw byddwch yn dechrau deall eu hystyr.

## Plant bach

Wrth i blant bach dyfu, tyfu hefyd fydd nifer y geiriau y byddan nhw'n eu deall ac yn eu defnyddio. Deall geiriau fydd yn dod yn gyntaf, a defnyddio'r geiriau hyn yn dilyn wedyn.

Yn dilyn dweud eu gair cyntaf, bydd plant bach yn adeiladu geirfa hyd at tua 100 gair gan ddefnyddio un ar y tro. Wedyn, byddan nhw'n gwrando arnoch chi ac yn dysgu bod geiriau'n cysylltu. Byddan nhw'n dechrau rhoi dau air gyda'i gilydd mewn brawddegau byr. Yn nes ymlaen byddan nhw'n defnyddio brawddegau hirach.

Yn dair oed, efallai y bydd plant eisoes yn deall geiriau lleoli fel **dan** ac **wrth ymyl** a chwestiynau fel **ble?** neu **beth?**

## Plant bach

Bydd plant pedair oed yn dechrau defnyddio brawddegau hirach. Byddan nhw'n dysgu a defnyddio llawer o eiriau newydd ac yn siarad am yr hyn y maen nhw wedi bod yn ei wneud. Byddan nhw'n dechrau gofyn llawer o gwestiynau ac yn mwynhau gwrando ar beth sydd gan eraill i'w ddweud.

Maen nhw'n cael trafferth ynganu rhai synau, ond bydd y rhan fwyaf o oedolion yn eu deall. Mae'r sgiliau hyn oll yn helpu plant i baratoi at fynd i'r ysgol.

Darganfyddwch fwy ar www.talkingpoint.org.uk



# Cynghorion Defnyddiol

**Mae siarad a chwarae gyda'ch plentyn yn dda ar ei les ac yn gwneud bywyd yn haws i chi. Bydd y cynghorion syml hyn yn eich helpu.**

### Mynnwch sylw'ch plentyn

Wynebwch eich plentyn neu eisteddwch i lawr gydag ef. Dywedwch ei enw cyn eich bod yn dechrau siarad. Siaradwch am rywbeth y gallwch eich dau ei weld o'ch blaen. Bydd hyn yn ei helpu i ddysgu ystyr geiriau.

### Ceisiwch gael hwyl gyda'ch gilydd

Defnyddiwch symudiadau, canwch, gwnewch synau a wynebau doniol. Peidiwch bod yn swil, bydd bod ychydig yn wirion yn helpu i ddal ei sylw a gwneud iddo chwerthin.

### Sylwadau nid cwestiynau

Bydd gofyn llawer o gwestiynau yn swnio fel prawf. Cynnal sgwrs sydd angen. Gwnewch rhyw sylw am yr hyn y bydd yn ei wneud neu am yr hyn sy'n digwydd.



**Rhowch amser iddyn nhw feddwl**
Mae plant angen mwy o amser nag oedolion i feddwl am yr hyn y maen nhw'n ei glywed, a phenderfynu sut i ateb. Rhowch amser iddyn nhw ymateb, ac edrychwch arnyn nhw tra rydych chi'n aros.

**Defnyddiwch iaith syml**
Cadwch eich brawddegau'n syml. Er enghraifft, "Amser bwyd nawr" neu "Wow, rwyt ti'n adeiladu tŵr".

**Ail adroddwch yr hyn ydych chi'n ei ddweud**
Mae'n beth da ailadrodd yr un peth eto. Mae angen i fabanod a phlant bach glywed geiriau a brawddegau sawl gwaith er mwyn eu deall a dysgu geiriau newydd.

**Gwnewch hi'n haws iddyn nhw allu gwrando**
Bydd troi'r gerddoriaeth, y radio neu'r teledu i ffwrdd yn help i blant ganolbwyntio ar eich geiriau.

**Adeiladwch ar yr hyn y maem nhw'n ei ddweud**
Bydd ychwanegu gair neu ddau at yr hyn y byddan nhw'n ei ddweud yn helpu'ch plentyn i gamu ymlaen. Felly, os bydd eich plentyn yn dweud "bws" dywedwch chi "Ie, bws mawr".

**Siaradwch yn eich mamiaith neu iaith y cartref**
Mae'n bwysig bod plant yn dysgu eu geiriau a brawddegau cyntaf yn iaith y cartref. Bydd eich plentyn yn dysgu Saesneg yn nes ymlaen, yn y feithrinfa a'r ysgol.

**Gwnewch hi'n haws iddyn nhw siarad**
Gall dymis rwystro unrhyw siarad. Ceisiwch eu cadw ar gyfer amseroedd cysgu yn unig. Tynnwch y dymi allan pan fyddwch am siarad.

**Dangoswch y ffordd iawn**
Bydd plant bach yn gwneud camgymeriadau yn aml. Dangoswch eich bod yn deall, yn hytrach na gofyn iddyn nhw ailadrodd geiriau'n gywir. Ailadroddwch y gair neu'r frawddeg eto yn gywir. Os bydd yn dweud "Drycha ar Mali Mali", gallwch chi ddweud "Ie, Sali Mali ydy hi".

**Copiwch yr hyn maen nhw'n ei ddweud**
Ailadroddwch synau, geiriau a brawddegau. Bydded yn "la la" neu "O, oeddet ti'n hoffi'r banana?", mae'n dangos bod gennych ddiddordeb a bod synau a geiriau yn bwysig.

# Mae dysgu siarad yn gallu bod yn anodd

## Mae rhai plant yn ei chael hi'n fwy anodd nag eraill i siarad a gwrando.

Efallai y gallen nhw'i chael hi'n anodd i ddeall ystyr geiriau a brawddegau. Bydd rhai'n ei chael yn anodd i ddod o hyd i'r geiriau a'r synau cywir i'w defnyddio a'u rhoi mewn trefn. Efallai y bydd angen help ychwanegol ar y plant hyn.

Os ydych yn poeni am eich plentyn, siaradwch gyda phobl yr ydych chi'n eu hadnabod ac sy'n adnabod eich plentyn. Bydd y camau yn y daflen hon yn ganllaw i chi gan eu bod yn gamau cywir ar gyfer y rhan fwyaf o blant. Cofiwch, mae pob plentyn yn wahanol.

Os ydych yn dal yn bryderus, dilynwch eich greddf. Siaradwch gyda rhywun fydd yn gallu helpu, er enghraifft, therapydd lleferydd ac iaith neu eich ymwelydd iechyd neu Feddyg Teulu.

Yn y cyfamser, i'ch helpu i ddechrau ar hyn, dilynwch y cynghorion yn y daflen. Ewch i www.talkingpoint.org.uk am fwy o wybodaeth.


Chi yw athrawes gyntaf eich plentyn a'r un fwyaf pwysig. Gall yr hyn y byddwch yn ei wneud gyda'ch gilydd wirioneddol helpu'ch plentyn!

**Ewch i www.talkingpoint.org.uk/talkinglinks i ddod o hyd i'ch therapydd lleferydd ac iaith agosaf, neu gofynnwch yn eich canolfan blant leol.**

# Adnoddau I CAN defnyddiol


Mae I CAN yn gweithio i helpu pob plentyn i ddatblygu ei sgiliau siarad a gwrando. Mae gennym rai DVDs a llyfrau gweithgareddau gwych y byddwch yn eu cael yn ddefnyddiol iawn:

## Babbling Babies (Babanod yn Clebran)





Pecyn o 30 o weithgareddau hwyl, wedi'u darlunio'n llawn ar gardiau parhaol i'w chwarae gyda babanod o'u genedigaeth hyd at 18 mis oed, i gefnogi eu datblygiad o ran siarad, defnyddio iaith a chyfathrebu.

## Toddler Talk (Siarad Plant Bach)




Pecyn o 30 o weithgareddau hwyl, wedi'u darlunio'n llawn ar gardiau parhaol i'w chwarae gyda phlant bach o 18 mis i 3 mlwydd oed, i gefnogi eu datblygiad o ran siarad, defnyddio iaith a chyfathrebu.

## Chatter Matters (Materion Clebran)





DVD deniadol gyda syniadau i helpu datblygu sgiliau siarad a gwrando eich plant, a sesiwn garioci i'r plant allu ymuno i mewn yn y canu.

## Ready Steady Talk (Yn Barod i Siarad)




Llyfr gweithgaredd deinamig o gemau gwych i helpu'ch plentyn i fod yn barod ar gyfer y cyfnod cyn ysgol a thu hwnt i hynny.

## The Communication Cookbook (Y Llyfr Coginio Cyfathrebu)




Llyfr gweithgaredd yn llawn i'r ymylon o syniadau a chynhwysion sy'n hanfodol i blant sydd newydd gychwyn mynd i'r ysgol.

**Archebwch yr adnoddau hyn o**
**www.ican.org.uk/resources**

**Elusen cyfathrebu plant yw I CAN. Rydym yn gweithio i helpu pob plentyn i wella ei sgiliau siarad a gwrando.**

I ddarganfod mwy am y modd y mae I CAN yn cefnogi rhieni, ewch i **www.ican.org.uk/help**

I archebu mwy o daflenni Siarad Gyda'n Gilydd ewch i **www.ican.org.uk/resources**

I gael mwy o wybodaeth gan I CAN drwy ein cylchlythyr rheolaidd, cofrestrwch yn **www.ican.org.uk/register**

Os ydych am helpu I CAN i helpu plant, ewch i **www.ican.org.uk/supportus**

I CAN
8 Wakley Street
London
EC1V 7QE
info@ican.org.uk

Am fwy o wybodaeth ffoniwch
0845 225 4073 / 020 7843 2552

© I CAN 2012. Rhif Elusen Gofrestredig: 210031

Language: Welsh
ISBN: 978-1-908173-33-1